# Digelu plant a phobl ifanc rhag cam-drin rhywiol

## Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru 2025-2035

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ymgynghoriad i bobl ifanc

# Helo

**Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn ac unigolyn ifanc gael bywydau iach a hapus. Rydym am eu cadw'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag niwed a cham-drin. Dyma ein strategaeth 10 mlynedd i atal cam-drin plant yn rhywiol a sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth gywir. ➡ Felly, rydym am wybod beth yw eich barn chi.**

## Beth yw cam-drin plant yn rhywiol?

Ystyr cam-drin plant yn rhywiol yw gorfodi plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol.

**Mae hon yn drosedd ddifrifol, ac nid yw byth yn fai ar y plentyn.**




**Camdriniaeth gyswllt** – pan fo cyswllt corfforol neu gyffwrdd:

- cyffwrdd ag unrhyw ran o gorff plentyn mewn ffordd rywiol, hyd yn oed trwy ddillad
- defnyddio rhan o'r corff neu wrthrych i dreisio plentyn
- gwneud i blentyn gyffwrdd â rhywun arall neu dynnu ei ddillad i ffwrdd.

**Camdriniaeth heb gyswllt** – pan nad oes cyffwrdd, ond mae'r cam-drin yn dal i achosi niwed. Gall hyn ddigwydd wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae'n cynnwys:

- dangos pornograffi i blant — lluniau rhywiol neu wneud iddynt wylio pobl yn cael rhyw
- gwneud neu rannu lluniau neu fideos rhywiol o blant
- gwneud i blant wneud pethau rhywiol ar gyfryngau cymdeithasol, fideo, dros y ffôn neu mewn negeseuon
- gwneud i blant gymryd rhan mewn sgyrsiau rhywiol.

**Mae llawer mwy o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol nag y mae gwasanaethau yn nodi yng Nghymru.**



200 o blant wedi'u rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant oherwydd cam-drin rhywiol

1,000 o blant wedi'u gweld gan ganolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol

6,000 o droseddau cam-drin plant yn rhywiol wedi'u cofnodi gan yr heddlu

Amcangyfrifir bod

**25,000**

o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol bob blwyddyn*

Ffynonellau: Y Swyddfa Gartref, Troseddau a chanlyniadau a gofnodwyd gan yr heddlu, 2023/24; Llywodraeth Cymru, 2025; GIG Cymru, 2024.
*Amcangyfrif wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon cyffredinrwydd un flwyddyn yn ôl grŵp oedran (Radford et al. 2011) ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023.
Sylwer: mae'r rhifau wedi'u talgrynnu i'r cant/mil agosaf.

Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

**Mae pobl yn gallu, ac wedi, adfer o gam-drin plant yn rhywiol.**

**Mae cael y gefnogaeth gywir yn gwneud gwahaniaeth mawr.**

# Pam mae hyn yn bwysig

Gall cam-drin rhywiol gael effaith fawr ar fywyd rhywun — nawr ac yn y dyfodol. Gall effeithio:

**Iechyd meddwl**
- teimlo'n orbryderus neu'n isel
- problemau gyda bwyta neu gysgu
- teimlo'n ddideimlad, yn flin neu wedi'ch llethu
- ôl-fflachiadau, hunllefau neu PTSD.

**Iechyd corfforol**
- problemau stumog neu dreuliad
- poen neu flinder hirdymor
- problemau iechyd gynaecolegol neu rywiol
- problemau iechyd y galon.

**Tyfu i fyny a pherthnasoedd**
- ei chael hi'n anodd ymddiried mewn pobl
- cael trafferth gydag agosatrwydd, rhyw neu gyffyrddiad
- teimlo'n ansicr neu'n anniogel mewn perthnasoedd.

**Hyder a chyfleoedd bywyd**
- hunan-barch neu hyder isel
- dod o hyd i ysgol, coleg neu waith yn galetach
- teimlo bod bywyd yn anoddach nag y dylai fod.



Gall cam-drin plant yn rhywiol gynnwys:

- **Camfanteisio'n rhywiol ar blant** – pan fydd rhywun yn manteisio ar blentyn neu unigolyn ifanc ac yn eu cael i wneud pethau rhywiol yn gyfnewid am sylw, arian, anrhegion, cyffuriau neu amddiffyniad. Gall hyn ddigwydd wyneb yn wyneb, ar-lein neu drwy bwysau gan eraill.
- **Ymddygiad rhywiol niweidiol** – pan fydd plentyn neu unigolyn ifanc yn dangos ymddygiad rhywiol nad yw'n iawn, nad yw'n ddiogel neu nad yw'n briodol i'w oedran. Gallai hyn niweidio eraill neu ei hun.

**Cam-drin plant yn rhywiol...**

**Mae'n fwy cyffredin nag y tybiwch.**

Mae **15%** o ferched a **5%** o fechgyn yn profi cam-drin rhywiol cyn iddynt fod yn 16 oed.

**Yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn...**
Amcangyfrifir bod
**500,000**
o blant a phobl ifanc yn cael eu cam-drin yn rhywiol. Ond nid yw'r rhan fwyaf yn cael eu cofnodi gan yr heddlu neu'n cael eu nodi gan y gwasanaethau amddiffyn plant.

**Pobl sy'n cam-drin**
Daw pobl sy'n cam-drin o bob cefndir. Nid ydynt yn hawdd i'w gweld ac weithiau maent yn dal i fod yn blant eu hunain. Mae plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol gan amlaf gan rywun maent yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo.

**Mae cam-drin rhywiol yn ffynnu mewn dirgelwch a thawelwch.**
**Felly, mae'n bwysig siarad amdano a thorri'r tawelwch.**

Mae cam-drin rhywiol ar-lein yn tyfu'n gyflym. Yn 2023/24, roedd mwy na thraean
**39%**
o droseddau rhywiol yn erbyn plant wedi digwydd ar-lein.

# Ynglŷn â'r strategaeth hon

Fe wnaeth sefydliadau, gweithwyr proffesiynol a phobl ledled Cymru ein helpu i ddatblygu'r strategaeth hon.

Fe wnaeth dros **150** o bobl gymryd rhan.

Mae cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel yn fusnes i bawb. Felly, mae'r strategaeth hon ar gyfer pawb ledled Cymru. Mae'n ymwneud ag:


- **Atal** – atal a lleihau'r risg o gam-drin.
- **Adnabod** – hyfforddi gweithwyr proffesiynol i adnabod arwyddion cam-drin.
- **Ymateb** – rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl, gan gynnwys cymorth i gymryd camau cyfreithiol os ydynt yn dewis hynny.
- **Cydweithio** – sicrhau y gall gwasanaethau gydweithio — ysgolion, yr heddlu, iechyd a mwy.
- **Monitro a gwerthuso** – gwirio'r strategaeth hon sy'n gwneud y gwahaniaeth mawr i fywydau pobl.

Mae newidiadau mawr fel hyn yn cymryd amser ac adnoddau felly, mae hon yn **Strategaeth 10 mlynedd.** Bydd newidiadau mawr yn cael eu torri'n elfennau llai felly bydd llawer iawn o newidiadau pwysig yn digwydd o ddechrau'r strategaeth.

**Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn Strategaeth 10 mlynedd?**

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

Sylw



## Ein gweledigaeth

**Mae pob plentyn yng Nghymru yn byw eu bywydau heb niwed cam-drin plant yn rhywiol.**

**Mae unrhyw un yr effeithir arno gan gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei amddiffyn a'i gefnogi drwy gydol ei oes.**

**A ydych chi'n cytuno â'n gweledigaeth?**

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

Sylw

# Nod 1: Atal cam-drin plant yn rhywiol

**Beth rydym am ei weld:**

Mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i siarad am gam-drin plant yn rhywiol.

Mae pawb wedi'u grymuso i gadw plant yn ddiogel rhag cam-drin rhywiol ac yn gwybod sut i godi pryderon.

Gall cymunedau sylwi ar bryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol, ymateb iddynt a rhoi gwybod amdanynt.

## Camau gweithredu

Byddwn yn:

- datblygu cynllun cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol
- gwirio pa adnoddau sydd ar gael i bobl ac os oes bylchau — creu rhai newydd
- sicrhau bod gan bobl wybodaeth gywir am gam-drin plant yn rhywiol a pherthnasoedd iach
- annog cymunedau i siarad am gam-drin plant yn rhywiol a rhoi gwybod amdano
- cynyddu dealltwriaeth bod rhai plant mewn mwy o berygl nag eraill
- cynnal digwyddiadau cymunedol ar sut i gadw plant yn ddiogel ac atal cam-drin
- ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar sut i wneud lleoedd yn fwy diogel
- gweithio gyda sefydliadau i weld a fydd eu cynlluniau yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth
- hyrwyddo defnyddio'r iaith gywir am gam-drin plant yn rhywiol, fel nad yw dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu barnu na'u beio
- sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwybod sut i adnabod cam-drin plant yn rhywiol
- gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod beth yw trawma, a'i ddeall
- rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am adnoddau cymorth i blant sydd wedi profi neu sydd mewn perygl o gam-drin rhywiol
- rhoi cefnogaeth a gwybodaeth i bobl ifanc fel nad ydyn nhw'n niweidio unrhyw un yn rhywiol
- addysgu pob plentyn am berthnasoedd iach a sut i roi gwybod am broblemau.

**Beth rydym am ei weld:**

Mae camdrinwyr (neu bobl sy'n ystyried cam-drin plant yn rhywiol) wedi'u hatal a'u trin yn y ffyrdd cywir fel na allant achosi niwed.

## Camau gweithredu

Byddwn yn:

- sicrhau bod pobl sydd â meddyliau am gam-drin plant yn rhywiol yn cael cefnogaeth i'w hatal rhag niweidio unrhyw un
- sicrhau bod pobl sydd wedi'u heuogfarnu o niwed rhywiol i blant yn cael cefnogaeth i'w hatal rhag niweidio unrhyw un arall.



**Ydych chi'n cytuno â'r nod hwn?**

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

**Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu?**

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

Sylw

# Nod 2: Diogelu plant a phobl ifanc pan fo pryder ynghylch cam-drin plant yn rhywiol

**Beth rydym am ei weld:**

Mae gan bob gweithiwr proffesiynol hyfforddiant mewn cam-drin plant yn rhywiol i gadw plant yn ddiogel.

Mae rhieni a gofalwyr yn cael y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir.

Mae plant a phobl ifanc yn hyderus y bydd rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu credu os ydynt yn cael eu cam-drin yn rhywiol neu'n teimlo mewn perygl.

Mae gwasanaethau'n cydweithio pan fo pryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol.

Cefnogaeth a chyngor arbenigol i weithwyr proffesiynol sy'n helpu plant, teuluoedd ac oedolion sydd wedi profi cam-drin rhywiol.



## Camau gweithredu

Byddwn yn:

- cymryd rhan mewn adolygiad ynghylch cyfrifoldebau cyfreithiol gweithwyr proffesiynol i roi gwybod am bryderon
- gwella canllawiau i weithwyr proffesiynol ar gam-drin plant yn rhywiol
- gweithio gyda'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i ddatblygu llwybr cam-drin plant yn rhywiol sydd â chamau clir ar sut i gefnogi pobl
- gwirio pa adnoddau sydd ar gael i weithwyr proffesiynol ac os oes bylchau — creu rhai newydd
- edrych ar sefydlu hyb ar-lein sy'n cynnig cyngor proffesiynol
- sicrhau bod gan blant a phobl ifanc wybodaeth glir am beth fydd yn digwydd, fel eu bod yn teimlo'n ddiogel i siarad â rhywun y maent yn ymddiried ynddo am gam-drin rhywiol
- sicrhau bod canllawiau i weithwyr proffesiynol ynghylch helpu plant sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin yn gyfredol ac yn hawdd eu deall — a bod pawb yn gwybod am y canllawiau hyn.

**Ydych chi'n cytuno â'r nod hwn?**

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

**Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu?**

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

Sylw

# Nod 3: Cefnogi plant a theuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol

**Beth rydym am ei weld:**

Mae gan bob plentyn ac unigolyn ifanc y gefnogaeth gywir, ar yr amser cywir.

Mae gan deuluoedd, ac eraill ym mywyd plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol, gefnogaeth.

Gall pob gwasanaeth a staff roi'r gefnogaeth gywir i bobl ar yr amser cywir.



## Camau gweithredu

Byddwn yn:

- sicrhau bod pawb yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael fel y gallant gael cefnogaeth
- sicrhau bod gwasanaethau cwnsela a chymorth arbenigol ar gael i blant a phobl ifanc
- codi ymwybyddiaeth o sefydliadau sy'n rhoi gwasanaethau cwnsela a chymorth i wella
- sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol y wybodaeth, yr hyder a'r sgiliau cywir
- sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant yn deall trawma
- cynnwys teuluoedd wrth gynllunio cefnogaeth
- cefnogi teuluoedd i adnabod a rheoli effeithiau cam-drin plant yn rhywiol
- datblygu canllawiau i helpu teuluoedd i gael cefnogaeth a chyngor cyfreithiol
- gwrando ar brofiadau teuluoedd a'u cynnwys wrth ddatblygu adnoddau
- cefnogi teuluoedd i reoli effeithiau cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd
- sicrhau y gall plant a theuluoedd gael cefnogaeth arbenigol pan gaiff aelod o'r teulu ei arestio am gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin ar-lein.

**Ydych chi'n cytuno â'r nod hwn?**

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

**Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu?**

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

Sylw

# Nod 4: Cefnogi dioddefwyr-oroeswyr sy'n oedolion

**Beth rydym am ei weld:**

Diwylliant o ddealltwriaeth a bod yn agored, lle mae oedolion yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i siarad am y cam-drin rhywiol a ddigwyddodd iddynt fel plentyn.

Mae gan bob unigolyn ifanc yr hawl i gefnogaeth wrth iddynt ddod yn oedolion.

Mae pob gwasanaeth a staff yn darparu'r gefnogaeth gywir i oedolion a gafodd eu cam-drin yn rhywiol fel plentyn.



## Camau gweithredu

Byddwn yn:

- annog oedolion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn blant i rannu eu straeon
- sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn deall effaith hirdymor cam-drin plant yn rhywiol
- cynnwys y risg o gam-drin rhywiol mewn polisïau a gwaith arall
- sicrhau bod pobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael y gefnogaeth gywir ac yn cael eu cadw'n ddiogel
- sicrhau bod pobl 18–25 oed yr effeithir arnynt gan gam-drin rhywiol yn blant yn cael y gefnogaeth gywir gan wasanaethau ar gyfer materion fel digartrefedd, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl
- codi ymwybyddiaeth o sefydliadau a chefnogaeth i oedolion sydd wedi profi cam-drin rhywiol yn blant
- sicrhau bod gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn deall y ffordd orau o gefnogi oedolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin rhywiol, a datblygu canllawiau i awdurdodau lleol gefnogi staff i wneud hyn
- sicrhau bod gwasanaethau'n cefnogi pobl ifanc ag ymddygiad rhywiol niweidiol fel eu bod yn ddiogel fel oedolion
- sefydlu grŵp i ddatblygu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol fel bod oedolion bob amser yn cael eu gofyn a ydynt wedi profi cam-drin rhywiol yn blant pan fyddant yn cwrdd â gwasanaethau cymorth
- gwella sut rydym yn cefnogi pobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin rhywiol yn blant wrth iddynt ddod yn oedolion
- edrych ar ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Asesu Galluedd Meddyliol (MCAST) i helpu pobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cefnogaeth.

**?** **Ydych chi'n cytuno â'r nod hwn?**

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

**Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu?**

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

Sylw

# Gweithio gyda'n gilydd

Allwn ni ddim gwneud hyn ar ein pen ein hunain. Felly, dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn gweithio gydag:

- adrannau eraill ar draws Llywodraeth Cymru
- arweinwyr cymunedol a gwasanaethau cymunedol
- sefydliadau ac elusennau
- ysgolion, colegau a gwasanaethau addysg eraill
- gwasanaethau gofal cymdeithasol
- gwasanaethau iechyd
- gwasanaethau heddlu a phrawf
- Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- darparwyr gwasanaethau cymorth eraill.

**Oes unrhyw bartneriaid eraill y dylem eu cynnwys?**



# Sicrhau ei bod yn gweithio

Rydym am i'r Strategaeth hon wneud gwahaniaeth ledled Cymru ac i atal cam-drin plant yn rhywiol.

## Grŵp Gweithredu Strategol

Byddwn yn dod â grŵp o weithwyr proffesiynol ynghyd i helpu i gyflawni a monitro'r Strategaeth hon. Byddant yn gwirio ein gwaith ac yn nodi meysydd y mae angen i ni eu gwella neu ymchwilio iddynt ymhellach. Byddant yn sefydlu grwpiau gweithredu i'n helpu i gyflawni'r strategaeth hon..

## Grŵp Cynghori

Byddwn yn sefydlu grŵp cynghori sydd â gweithwyr proffesiynol o bob adran o Lywodraeth Cymru. Byddant yn ein helpu i sicrhau bod ein camau gweithredu yn cysylltu â chynlluniau a pholisïau eraill. Bydd hyn yn rhoi cyfle inni gydweithio a rhannu arferion da.

**Mae hon yn Strategaeth 10 mlynedd, ond mae'r cam cyntaf yn cynnwys cynllun gweithredu 3 blynedd.**

Ar ôl y 3 blynedd gyntaf, bydd y Grŵp Gweithredu Strategol yn datblygu ac yn cyhoeddi adroddiad cynnydd. Bydd yn dweud wrthym y gwahaniaeth y mae hyn yn ei wneud ac a oes angen unrhyw newidiadau.

**Ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion?**

- ○ Ydw
- ○ Nac ydw
- ○ Ddim yn gwybod

**Sylw**

# Un peth i orffen

## Ei gwneud yn deg i bawb

Rydym am sicrhau bod y strategaeth hon yn helpu pawb. Nid ydym am i unrhyw un gael eu trin yn annheg oherwydd pwy ydynt neu beth sydd wedi digwydd yn eu bywyd.

**Beth arall allwn ni ei wneud i wneud y strategaeth hon yn decach i bawb?**

Sylw

## Y Gymraeg

**Sut ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn effeithio ar y Gymraeg?**

Sylw

**Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthym am y strategaeth hon?**

Sylw



## Diolch am ddarllen hwn

Anfonwch eich atebion at

CSA.NationalStrategy2025-2035Consultation@llyw.cymru

Neu postiwch at:

Tîm Polisi Diogelu, Eiriolaeth a Chwynion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Erbyn 8 Hydref 2025